# Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant: Cynllun Gweithredu yn ymwneud ag Adolygiad Gwella Ansawdd yr ASA Mawrth 2022 (Diweddariad terfynol y cadarnhaodd y Senedd ei fod wedi'i gwblhau: 17.06.2024)

| | Nodweddion a ganmolwyd | Camau i'w cymryd | Dyddiad Targed | Pwyllgor | Gweithredir gan | Deilliannau arfaethedig | Adroddiad a gwerthusiad | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Y dangosfwrdd data sy'n darparu amrywiaeth eang o ddata cywir, defnyddiol a hygyrch i'r staff, ac sy'n galluogi i'r Brifysgol fonitro ei pherfformiad yn gynhwysfawr ac yn effeithiol mewn perthynas â safonau ei dyfarniadau ac ansawdd profiad dysgu ei myfyrwyr. | Parhau i wella dangosfyrddau data gan gynnwys derbyniadau a graddau ymchwil. | Mehefin 2023 | Grŵp Llywodraethu Data | Swyddfa Academaidd a Systemau Gwybodaeth | Cwblhawyd dangosfyrddau data ar gyfer derbyniadau a graddau ymchwil. | Cynnydd yn cael ei fonitro gan y Grŵp Llywodraethu Data. | Wedi'i gwblhau. Lansiwyd proses Adolygiadau Rhaglenni Academaidd newydd yn defnyddio dangosfyrddau data diwygiedig ym mis Hydref 23. |
| 2 | Yr Hwb Myfyrwyr sy'n darparu pwynt cyswllt a gwybodaeth electronig i'r myfyrwyr sy'n hygyrch ac yn gynhwysfawr, ac mae hyn yn cefnogi eu profiad dysgu'n effeithiol. | Amh. | | | | | | |
| 3 | Yr amrywiaeth eang o ddulliau digidol o hyfforddi, addysgu a chefnogi, a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, a'r defnydd effeithiol a wneir ohonynt, sy'n parhau i gyfoethogi profiad y staff a'r myfyrwyr. | Amh. | | | | | | |
| 4 | Y gefnogaeth hygyrch a chynhwysfawr a ddarperir, | Amh. | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | yn arbennig gan y Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol a'r Arweinwyr Timau Partneriaeth, i sefydliadau partner cydweithredol sy'n eu helpu'n effeithiol i ddeall a gweithredu gofynion PCYDDS. | | | | | | | |
| 5 | Y dull cydlynol ac effeithiol o wella cyfleoedd i'r myfyrwyr symud ymlaen o'i phartneriaid cydweithredol a rhyngddynt. | Amh. | | | | | | |
| | **Nodweddion a gadarnhawyd** | **Camau i'w cymryd** | **Dyddiad Targed** | **Pwyllgor** | **Gweithredir gan** | **Deilliannau arfaethedig** | **Adroddiad a gwerthusiad** | **Diweddariad** |
| 6 | Y gwaith y mae'r Coleg Doethurol yn ei wneud i sicrhau bod profiad y myfyrwyr yn gymaradwy ar draws yr amrywiaeth o gampysau a dulliau astudio. | Parhau â'r gwaith a wneir gan y Coleg Doethurol trwy gymeradwyo Strategaeth y Coleg Doethurol. | Mehefin 2022 | Y Senedd | Cyfarwyddwr Academaidd y Coleg Doethurol | Cefnogaeth barhaus i fyfyrwyr ymchwil ar draws lleoliadau aml-gampws a dulliau cyflwyno trwy weithredu Strategaeth y Coleg Doethurol. | Cymeradwy-aeth ac adolygiad blynyddol gan y Pwyllgor Ymchwil a'r Senedd. | Wedi'i gwblhau. Cymeradwywyd y strategaeth gan y Senedd 10.06.2022. |
| | **Argymhellion** | **Camau i'w cymryd** | **Dyddiad Targed** | **Pwyllgor** | **Gweithredir gan** | **Deilliannau arfaethedig** | **Adroddiad a gwerthusiad** | **Diweddariad** |
| 7 | Datblygu system gadarn sy'n sicrhau bod pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig sy'n gwneud neu'n | Sefydlu rhaglen hyfforddi ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n gwneud | Mehefin 2023 | Bwrdd Dysgu ac Addysgu (BDA) a Bwrdd y | Swyddfa Academaidd (yn cynnwys y Coleg | Creu cyfleoedd hyfforddi priodol ar gyfer myfyrwyr | Adroddiad i'r BDA a ByCD. | Wedi'i gwblhau. Mae'r cwrs hyfforddi wedi'i gynllunio ac fe'i |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | cefnogi gwaith addysgu, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn derbyn hyfforddiant priodol. | neu’n cefnogi gwaith addysgu. | | Coleg Doethurol (ByCD) | Doethurol) | ymchwil ôl-raddedig sy’n gwneud neu'n cefnogi gwaith addysgu, gan gynnwys Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Graddedig. | | cyflwynir o fis Medi 2024. |
| | | Sefydlu Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Graddedig. | Medi 2023 | Bwrdd Dysgu ac Addysgu a Bwrdd y Coleg Doethurol, Pwyllgor Ymchwil, Y Senedd | Swyddfa Academaidd (yn cynnwys y Coleg Doethurol) | Creu Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Graddedig. | Adroddiad i’r BDA a ByCD. | Wedi’i gwblhau. Cymeradwywyd canllawiau ar gyflogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig fel darlithwyr a delir fesul awr gan fwrdd y Coleg Doethurol. |
| 8 | Datblygu dull strategol cydlynol o wella canlyniadau pob rhaglen o ran cyflogadwyedd mewn swyddi proffesiynol sydd angen lefel uchel o sgiliau. | Datblygu Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau | Rhagfyr 2022 | Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr, Y Senedd a’r Cyngor | PIG Sgiliau a Dysgu Gydol Oes | Gweithredu’r strategaeth. | Cymeradwy-aeth ac adolygiad blynyddol gan y Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr, Y Senedd a’r Cyngor. | Wedi’i gwblhau. Cymeradwywyd y strategaeth gan y Cyngor 25.11.2022. |
| 9 | Cynnwys myfyrwyr sefydliadau partner cydweithredol yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau 'addysgu allan' pan fo cyrsiau'n cael eu cau. | Datblygu Cynllun Amddiffyn Dysgwyr ar gyfer y Brifysgol a fydd yn cynnwys Partneriaethau Cydweithredol. | Mehefin 2023 | Y Senedd | Swyddfa Academaidd, Y Gofrestrfa, Marchnata, a’r Swyddfa Partneriaethau | Arweiniad clir ar gynnwys myfyrwyr yn natblygiad cynlluniau ‘addysgu allan’ | Cymeradwy-aeth ac adolygiad blynyddol gan y Pwyllgor | Wedi’i gwblhau. Mae’r Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol bellach yn cynnwys cyfarfodydd dan |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cydweithredol | neu gwblhau'r addysgu wrth gau cyrsiau mewn sefydliadau partneriaeth cydweithredol. | Materion Rhyngwladol a Phartneriaethau, y Pwyllgor Safonau Academaidd a'r Senedd. | arweiniad y Brifysgol gyda myfyrwyr yn rhan o'i phrosesau cyfredol, i gynyddu cyfranogiad myfyrwyr partner yn natblygiad cynlluniau 'addysgu allan' pan fo rhaglenni a/neu bartneriaethau'n cael eu cau |

**CYMERADWYWYD Y FERSIWN WREIDDIOL GAN SENEDD AC UNDEB MYFYRWYR PCYDDS MEDI 2022**

**CADARNHAWYD GAN Y SENEDD BOD Y FERSIWN DERFYNOL WEDI'I CHWBLHAU AR 17 MEHEFIN 2024**